


Un Llais Cymru
One Voice Wales

# Astudiaeth Enghreifftiol Cyngor Tref Caernarfon

## Cip cyflym

Mae Cyngor Tref Caernarfon wedi mynd ati i geisio delio â'r argyfwng costau byw trwy gychwyn a chefnogi mentrau dan arweiniad y gymuned fel o law i law a Porthi Dre. Mae'r prosiectau hyn wedi lleihau ansicrwydd bwyd, darparu hanfodion fforddiadwy i blant a gwneud y gymuned yn fwy gwydn.

## Effaith ar y Gymuned

- Mae o law i law yn cyflogi 25 o wirfoddolwyr ac un aelod staff llawn-amser ac mae wedi darparu dillad plant, gwisgoedd ysgol, teganau ac offer babanod am brisiau fforddiadwy neu am ddim i filoedd o deuluoedd.
- Mae gan Porthi Dre un aelod staff llawn-amser a 3 rhan-amser yn ogystal â 40 o wirfoddolwyr sydd wedi gweini mwy na 11,500 o brydau poeth am ddim ers mis Mawrth 2023.
- Trwy ei Bartneriaeth FareShare a gynhelir bob dydd Mercher, mae bwyd dros ben yn cael ei rannu ac mae pobl yn gallu prynu bagiau o fwyd am ddim ond £3.
- Mae Mentrau Cysylltu â'r Gymuned fel Clwb Hwyl a Caban y Cofis wedi dod â phobl at ei gilydd ac wedi lleihau unigrwydd cymdeithasol.

"..mae'n dda iawn i'r dref gan nad oes ganddon ni lawer yma."

**Siopwr 'o law i law'**

## Heriau

Mae'r argyfwng costau byw wedi rhoi straen ariannol enfawr ar bobl Caernarfon, ac ar deuluoedd â phlant ifanc yn enwedig, ac mae wedi'i gwneud yn anodd i lawer fforddio hanfodion fel bwyd, dillad, ac offer gofal plant. Mae ansicrwydd bwyd yn broblem fawr o hyd, ac mae teuluoedd yn ei chael yn anodd cael gafael ar brydau fforddiadwy a maethlon, ac mae unigrwydd cymdeithasol yn gwneud pethau'n waeth, ac yn cynyddu'r angen am gefnogaeth gan y gymuned.

## Atebion

Arweiniodd y Cyngor Tref fentrau er mwyn ceisio ysgafnhau'r pwysau ariannol a hyrwyddo cynaliadwyedd ac undod cymunedol. Roedd yr atebion hyn yn cynnwys:

### o law i law

- Mae'r siop hon sy'n cael ei rhedeg gan y Cyngor ynghanol tref Caernarfon yn gwerthu dillad plant, pramiau, a theganau ail-law o ansawdd uchel am brisiau fforddiadwy i bobl y cylch.
- Mae hefyd yn gweithio mewn partneriaeth gydag ymwelwyr iechyd, gwasanaethau cymdeithasol, ac elusennau ffoaduriaid i ddarparu nwyddau hanfodol am ddim i'r rhai sydd eu hangen fwyaf.
- Mae'n annog y gymuned i roi nwyddau, gan leihau gwastraff a hyrwyddo cynaliadwyedd.

Teganau | Cotiau, pramiau & hanfodion | Dillad Plant | Lleoedd cynnes

### Porthi Dre

- Gofod cymunedol canolog sy'n dosbarthu bwyd, cynnig prydau bwyd, a rhaglenni cefnogaeth gymdeithasol.
- Mae'n cael ei rhedeg yn fenter ar wahân erbyn hyn, ac mae wedi dwyn at ei gilydd yr holl fentrau yr oedd y Cyngor Tref wedi'u cychwyn i ymateb i Covid yn y lle cyntaf
- Mae Partneriaeth FareShare yn cynnig bag bwyd wythnosol am bris gostyngol a phryd bwyd ac yn gwneud yn siwr nad oes unrhyw fwyd yn cael ei wastraffu.
- Clybiau cymdeithasol, gweithgareddau a boreau coffi sy'n cyfrannu at lesiant y gymuned leol.

Lleoedd cynnes | Dosbarthiadau ffitrwydd | Prydau poeth | Cefnogi'r gymuned

# Fideo ‘o law i law’ Caernarfon




“Mae popeth yn lân ac mae’n berffaith os nad oes ganddoch chi gyllideb fawr i gael popeth rydach chi ei angen ar gyfer eich babi newydd baby”
**‘o law i law’ Shopper**

---

## Arian & Grymoedd

Derbyniodd Cyngor Tref Caernarfon grant gan Lywodraeth Cymru i helpu gyda chostau cychwynnol y gwasanaethau oedd yn cael eu darparu i bobl leol. Roedd grant arall gan Lywodraeth Cymru wedi cefnogi costau agor siop **o law i law**, sydd erbyn hyn yn gwneud elw bychan trwy werthiannau a rhoddion

Mae **Porthi Dre,** hwb cymunedol, yn gweithredu yn elusen erbyn hyn ac wedi esblygu i fod yn gyfrifol am yr holl wasanaethau oedd yn cael eu darparu cyn hynny gan Gyngor Tref Caernarfon. Cafodd grant gan Lywodraeth Cymru i agor yr adeilad a gosod cegin fasnachol. Mae hefyd yn derbyn £20K bob blwyddyn gan Gyngor Tref Caernarfon, sy’n parhau i’w gefnogi i helpu talu costau gorbenion.

Mae pob cyngor cymuned yng Nghymru yn gorfod cael grymoedd cyfreithiol penodol sy’n eu galluogi i ddarparu gwasanaethau a chefnogaeth amrywiol i’w cymunedau lleol. Mae’r grymoedd hyn, a roddir iddynt trwy ddeddfwriaeth, yn galluogi cynghorau i drefnu gweithgareddau a mentrau o bob math i wella llesiant ac ansawdd bywyd pobl leol. Mae bod yn gymwys i gael y grym cymhwysedd cyffredinol (GPOC) yn rhoi mwy o ryddid i gynghorau weithredu. Gall grymoedd a chyfiawnhadau amrywio os na chafodd cymhwysedd ar gyfer GPOC ei gadarnhau, a dylai cynghorau ystyried eu hamgylchiadau penodol nhw a gofyn am gyngor ar gyfreithlondeb y cynigion er mwyn osgoi gweithredu y tu hwnt i’w grymoedd.

Er mwyn cael cyngor ac arweiniad, efallai yr hoffai cynghorau gysylltu â’u Swyddog Datblygu Un Llais Cymru gweinydd@unllaiscymru.cymru

---




## Y Dyfodol

**Mae Cyngor Tref Caernarfon yn bwriadu ehangu o law i law, a gofalu ei bod yn cael ei hariannu’n gynaliadwy, a bydd Porthi Dre yn ceisio datblygu eu gwasanaethau gyda chyngor ariannol a chefnogaeth iechyd meddwl. Mae gwneud mwy o waith gyda phobl ifanc trwy gynnig hyfforddiant sgiliau yn flaenoriaeth hefyd, er mwyn cynnig cefnogaeth hirdymor i bobl leol a gwneud y gymuned yn fwy gwydn.**

”Dechreuodd yn rhywbeth tymor byr a daeth yn rhywbeth parhaol”
**Dewi Jones Clerc**
**Cyngor Tref Caernarfon**

## Eisiau Gwybod Mwy?

**Er mwyn cael mwy o wybodaeth am brosiect Argyfwng Costau Byw Un Llais Cymru cysylltwch â’r tîm yn:**

CoLC@onevoicewales.wales

https://bit.ly/3KYHftK